**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 6 Hydref 2009 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Ardal, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Tom Ellis (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Trevor Roberts, Gethin G. Williams, Eryl Jones-Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorwyr Peter Bunce (Cyngor Tref Abermaw), Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog), Mr K. J. Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Mr Glyn Jones | - | Harbwr Feistr |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd W. Roy Owen (arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes), Y Cynghorydd Aeron Williams (Cyngor Tref Abermaw).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Trevor Roberts yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr K. John Probert yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2009/10.**

3. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Trevor Roberts ei fod yn aelod oes o Glwb Hwylio Abermaw, er nad oedd eitem benodol i drafod y Clwb Hwylio ar y rhaglen.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2009.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

5. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr Barry Davies, ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

(i) Morwriaeth
(ii) Gwasanaeth Ysgraff
(iii) Digwyddiadau
(iv) Cyllidebau

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig :

(i) bod y flwyddyn ddiwethaf wedi dechrau'n dda o ran tywydd ond cafwyd mis Awst siomedig iawn a gafodd effaith ar y nifer o gychod ac ymwelwyr i'r harbwr. O ganlyniad cafodd hyn effaith ar gyllidebau'r harbwr ac mae yn annhebygol iawn bydd modd ad ennill yr incwm yn ystod misoedd y gaeaf.

(ii) calonogol ydoedd nodi bod y mwyafrif o'r **cymhorthion mordwyo** wedi aros ar eu safle a'u bod yn cydymffurfio hefo gofynion archwiliadau Ty'r Drindod. Fodd bynnag, mynegwyd bryder am y cymhorthydd "Clwyd" a oedd yn gwyro oddeutu $30^0$ tuag at y tir. Cydnabuwyd bod angen gwaith pellach iddo gan arbenigwyr ac y byddir yn edrych ar opsiynau eraill i'r dyfodol megis gosod bwi yn y sianel. 'Roedd arian wedi ei glustnodi mewn ffynhonell amgen ar gyfer hyn. Fe fyddai angen buddsoddi oddeutu £2,000 ar gyfer gwaith cynal a chadw y cymhorthyddion mordwyo a wneir yn ystod y gaeaf yn unol â rhaglen waith yr Harbwr. Nodwyd bwysigrwydd cael cymorth contractwr i ddod a'r bwiau i'r lan ac yna ail-osod y bwiau unwaith bydd y gwaith cynnal a chadw wedi ei gwblhau gan staff yr harbwr. Gwerthfawrogir profiad morwyr ynglyn â safloedd y bwiau ac y byddai derbyn eu hadborth yn dderbyniol iawn.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan aelod ynglŷn â gosod bwi rhybudd o berygl ar safle'r cymhorthydd y "Clwyd" yn wyneb y ffaith bod creigiau yn yr ardal yma, dywedodd y Swyddog Morwrol bod yn fwy na thebygol byddai Ty'r Drindod wedi argymell bwi port. Fodd bynnag, addawodd drafod ymhellach gyda'r peirianwyr o ystyried y risg i gontractwr ei osod, a.y.b.

Nodwyd bod costau cynnal a chadw cymhorthion mordwyo ac angorfeydd yr harbwr yn gymharol uchel ac i geisio gwneud arbedion fe ddefnyddir angorion er diogelu'r bwiau melyn ar eu safle yn hytrach na defnyddio blociau concrid. Defnyddi'r y bwiau hyn er parthu traethau i fyny o Cae'r Ddaniel, Sunny Sands, a.y.b.

(iii) rhyddhawyd tair Trwydded Perchennog ac wyth Trwydded Cychwyr ar gyfer gwasanaeth **ysgraff** rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn. Pwysleiswyd pa mor bwysig ydoedd y gwasanaeth hwn i dref Abermaw ac i wasanaeth y trên bach yn Fairbourne. Bu i'r Uned Forwrol drafod yr angen i gysoni gofynion Trwydded Perchennog ynghyd â chyflwr, math a nifer offer diogelwch a fu angen ei gludo ar fwrdd yr ysgraff. Cyfeirwyd yr aelodau at gopi o'r drwydded cwch pleser o dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1875 i 1907 ynghyd â rhestr o'r offer gofynnol yr hyn a fydd yn hanfodol i berchnogion gario ar fwrdd y cwch. Fe fyddai'r drwydded ddiwygiedig yn nodi'n hollol glir y nifer o bobl a ellir eu cludo ar fwrdd y cwch. Tynnwyd sylw hefyd at baragraff i'w gynnwys ynglyn â diffiniad o dywydd ffafriol i hwylio ac mai mater i Gapten y cwch fyddai penderfynu os ydoedd yn gallu hwylio ai peidio ac nad oedd hyn yn gyfrifoldeb i'r Harbwr Feistr. Nid oedd gofynion y ddeddf yn nodi pa gymhwyster oedd yn addas ar gyfer hwylio'r

ysgraff.   Gofynnodd y Swyddog Morwrol am farn yr aelodau ar eiriad y drwydded a’r rhestr offer sydd angen eu cludo ar fwrdd yr ysgraff.

Amlygwyd y pwyntiau canlynol gan aelodau unigol:

(a) bod angen diffinio a nodi yr union nifer o bobl y gellid gario ar fwrdd yr ysgraff.
(b) Mynegwyd bryder ynglŷn â’r awgrym i Gapten y gwch benderfynu i hwylio os oedd y tywydd yn anffafriol a theimlai sawl aelod o’r Pwyllgor Ymgynghorol mai’r Harbwr Feistr ddylai fod â chyfrifoldeb dros y penderfyniad terfynol. Cytunwyd ar hyn ac fe fyddai’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn rhoi gwybod i’r unigolion sydd yn ymgeisio am drwydded cwch bleser mai’r Harbwr Feistr neu unrhyw uwch swyddog o fewn gwasanaeth yr Harbwr fydd i benderfynu os caiff yr ysgraff hwylio ai peidio mewn tywydd anffafriol. Roedd y Swyddog Morworl a Pharciau Gwledig yn pwysleisio yr angen i fod yn wyliadwrus iawn pan y newid rheolau ac yn enwedig newid rheolau sydd yn cyfeirio mae cyfrifoldeb yr Harbwr Feistr byddai penderfynnu a fyddai cwch yn hwylio neu peidio. Atgoffwyd Aelodau na fod yr Harbwr Feistr ar ddyletswydd saith diwrnod yr wythnos ac mae rhwng 09.00 a 17.00 mae’r Harbwr Feistr ar ddyletswydd ac hyd yn oed yn ystod yr oriau hyn, gallai’r Harbwr feistr fod allan o’r ardal ar ddyletwydd arall. Ni allai penderfynu ar hwylio neu beidio hwylio gael ei gyfyngu i swyddogion y Cyngor. Argymhellaid y swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yw y dylai’r penderfyniad gael ei wneud gan Gapten yr ysgraff.
(c) Mynegwyd bryder ychwanegol gan aelod ynglŷn â lefel cymhwyster Trwydded Cychwr y Cyngor. Fel defnyddwr cyson o foryd yr Harbwr, bu i Gyng. Julian Kirkham dystio o bryd i’w gilydd ddigwyddiadau yn deillio o safonau israddol a pheryglus mewn llywio’r ysgraff gan weithredwyr a hynny gyda theithwyr ar ei bwrdd. Aeth ymlaen i restru nifer o ddigwyddiadau a dystiwyd ganddo a oedd yn ei dyb ef yn berygl i deithwyr ar ffwrdd yr ysgraff a hefyd i ddefnyddwyr eraill yr Harbwr ac roedd adroddiad y Cyng. Julian Kirkham fel a ganlyn:

- “yn ystod Ras y Tri Chopa fe wnaeth un gweithredwr penodol daro dim llai na tri chwch oedd yn cystadlu;
- Camddefnyddio’r injan - mynd o symud ymlaen yn llawn i symud am yn ôl yn llawn mewn un symudiad gan olygu colli’r llafn gwthio oedd wedyn yn golygu nad oedd y cwch yn gallu symud yn y dŵr ac ar drugaredd y llanw. Fe wnaeth y fferi wedyn daro cwch oedd wedi angori oedd yn berchen i ddeilydd angorfa.
- Gyrru’r cwch yn galed i fyny ar y traeth ger Pwynt Penrhyn i ganiatáu i deithwyr ddod i ffwrdd, llwytho teithwyr newydd ac wedyn mae'n rhaid iddynt i gyd sefyll a siglo'r cwch o ochr i ochr i fynd oddi ar y traeth.
- Nid yw’r gweithredwyr yn ymwybodol o'r Rheolau gweithredu.
- Gweithredwyr yn gadael yr haearn byrddio yn ei le wrth groesi’r harbwr gallai fod yn beryglus i ddefnyddwyr eraill yn yr harbwr
- Fe wnaeth un gweithredwr adael i unigolyn oedd am nofio i’r lan fynd oddi ar y cwch o flaen cwch oedd yn ceisio codi angorfa
- Cychod fferi yn teithio gyda theithwyr ar un ochr ac felly achosi i’r cwch siglo i un ochr heb fod angen. Roedd hyn yn waeth gan fod gan ddau gwch gabannau bach oedd yn cynyddu’r haen uchaf. Dylai Syrfëwr y Cyngor roi cyfarwyddyd i symud y rhain gan mai dim ond wedi eu bolltio maent i’r dec.
- Diffyg proffesiynoldeb a llywio gwael a pheryglus o’r cwch.

Roedd y Cynghorydd Kirkham o’r farn nad yw Cwch Pŵer RYA Lefel 2 yn gymhwyster ymarferol cywir i rywun sy’n dymuno gweithredu cwch bach i deithwyr yn Harbwr Abermaw yn nyfroedd Categori C. Nid yw yn gymhwyster proffesiynol.

Cynlluniwyd Tystysgrif RYA Lefel 2 yn benodol fel bod rhai sy'n llywio cychod fel cychod diogel mewn fflyd hyfforddi clybiau hwylio. Gosod marciau ras i gystadlaethau morwrol ac ati. Nid yw meddu ar dystysgrif medrusrwydd fel aelod o Griw Bad Achub yr RNLI ddim yn gymwys ychwaith.

Ym marn y Cynghorydd Kirkham y cymhwyster perthnasol yw Tystysgrif Meistr Cwch Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau sy'n gymwys ar gyfer cychod wedi eu dadleoli ac mae fferis Abermaw yn gymwys i'r categori yma e.e. cychod bychain yn cludo hyd at 12 o deithwyr i'w llogi ac am dâl.

Mae ymgeiswyr ar gyfer y Dystysgrif hon yn sefyll arholiad llafar ac ymarferol ar y cwch maent yn ei weithredu, yn yr ardal maent yn gobeithio gweithredu ynddi ac mae'r asesiadau yn cael eu cynnal gan Arolygwyr yr MCA. Gallai'r rhai sy'n meddu ar dystysgrif Meistr Hwylio RYA (pŵer) fod yn eithriad. Os yw'r ymgeiswyr yn llwyddo i gael y dystysgrif bydd angen iddynt gadw cofnod o'u gwaith ar fwrdd y cwch a weithredir ganddynt ac mae angen iddynt ail-gyflwyno eu hunain ar gyfer profion eraill ar ôl 5 mlynedd. Mae tair lefel i Drwydded Meistr Cwch felly mae lle i ymgeiswyr wella eu ffordd o drin cwch a'u gwybodaeth fordwyo a gwella eu cymwysterau."

**Cynigiodd y Cynghorydd Kirkham fod y Pwyllgor Ymgynghorol hwn yn argymell fod y Swyddog Morwrol yn edrych yn fanwl ar Drwydded Meistr Cwch yr MCA fel cymhwyster sydd ei angen i gael Trwydded Cychwr Cyngor Gwynedd i weithredwyr fferi sy'n gweithio yn Harbwr Abermaw gan dderbyn a gweithredu'r gofynion hynny.**

Rhagwelir y byddai ffi o £170 yn daladwy ar gyfer y cymhwyster uchod ond prysurwyd gan un Aelod i ddweud bod cymhwyster lefel 2 oddeutu £120 prun bynnag.

Cytunodd sawl aelod a oedd yn brofiadol ar y môr â'r argymhelliad uchod ac addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i ymchwilio ymhellach i'r oblygiadau gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ar 16 Mawrth 2010, er ystyriaeth pellach. Byddai'n ofynnol i hysbysebu gweithredwyr yr ysgraff o'r bwriad arfaethedig i uwchraddio lefel y cymhwyster fel eu bod yn ymwybodol ymlaen llaw pe benderfynir yn derfynol a'r argymhelliad. Pwysleiswyd byddai angen hysbysu perchenogion ysgraff o'r drafodaeth er sicrhau bod yna gyfnod digonnol i gyflwyno cais am drwydded Gwylwyr y Glannau pe byddai hyn yn benderfyniad y pwyllgor yn 2010.

(d) yng nghyswllt **digwyddiadau,** cymerwyd y cyfle i ddiolch i Bwyllgor Ras y Tri Chopa am y trefniadau llwyddiannus yn ystod y gystadleuaeth pryd 'roedd 34 o gychod yn cystadlu yn y ras eleni. Edrychir ymlaen i barhau i gydweithio eto ar gyfer 2010 gan sicrhau bod y gwaith rhagbaratawol wedi ei gwblhau ymlaen llaw sef bod yr holl angorfeydd yn barod o leiaf saith diwrnod cyn bod cychod sy'n cystadlu yn cyrraedd Abermaw. Pwysleiswyd yr angen i gael gwell trefniadau rhwng staff yr Harbwr a'r contractwr angorfeydd fel bo modd ymateb i unrhyw broblemau pan fo'r Harbwr Feistr ddim ar gael.

Nodwyd siom na fu'n bosibl cyflwyno cais am y Faner Las Ryngwladol ar gyfer 2009 oherwydd ansawdd anffafriol y dwr ymdrochi. Fodd bynnag, hyderir y gellir cyflwyno cais ar gyfer 2010 yn ddibynnol ar gadarnhad gan Asiantaeth yr Amgylchedd bod rhagolygon ansawdd y dŵr yn addawol.

(dd) cyfeiriwyd aelodau at y tablau **ystadegau harbwr,** gan nodi bod 892 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda'r Cyngor yn 2009 a 1169 cwch pŵer. Tynnwyd sylw at ystadegau angorfeydd ynghyd â chymhariaeth o ystadegau cychod ym mhob harbwr, enwau'r cychod yn harbwr Abermaw a chyfanswm hydoedd a dyfnder cychod.

Gwnaed sylw gan aelod ei fod wedi ymweld â harbwr Pwllheli yn ddiweddar ac wedi synnu at yr holl weithgareddau a gynhelir yno a'r budd i'r dref yn economaidd sy'n deillio o gynnal digwyddiadau rhyngwladol. Gofynnwyd sut y gallai Abermaw ac Aberdyfi fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Mewn ymateb, dywedodd un aelod ei fod yn anodd denu digwyddiadau i Abermaw oherwydd cyflwr yr Harbwr yn enwedig y diffyg carthu.

Adroddodd y Cadeirydd bod Clybiau Hwylio Pwllheli a Phorthmadog yn ragweithiol ac yn rymus yn nhrefniadau gweithgareddau o'r fath. Tra'n derbyn bod ganddynt adnoddau gwell, rhagwelir y byddai Clwb Hwylio Abermaw yn gallu bod yn yr un sefyllfa i'r dyfodol o ystyried brwdfrydedd, ymdrech yr aelodau a'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni hyd yma i wella'r cyfleusterau.

(e) tywysodd y Swyddog Morwrol yr aelodau drwy gyllidebau'r harbwr gan dynnu sylw aelodau i'r ffaith bod targed incwm am y flwyddyn ariannol gyfredol yn £53,230 a hyd at ddiwedd Awst eleni, 'roedd cyfanswm yr incwm wedi cyrraedd £33,187 sef £20,042 yn fyr o'r targed. Ni ragwelir y bydd cynnydd sylweddol i'r incwm rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth 2010.

O ran staffio'r harbwr, atgoffwyd yr aelodau bod lefel staffio yr harbwr ers ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 wedi cynyddu. Pwysleiswyd am yr angen i warchod yr adnoddau sydd ar gael yn barod. Yn dilyn ymddiswyddiad y Cymhorthydd Harbwr i swydd arall, ni fyddir yn penodi olynydd yn ei le ar hyn o bryd ond gobeithir penodi ddechrau flwyddyn nesaf. Golygai hyn y byddai'n ofynnol i'r uned fod yn rhagweithiol drwy weithio i raglen waith a blaenoriaethu. Nid oedd bwriad i dorri ar y cyllideb staffio ond yn sicr fe fyddai'n rhaid cyfiawnhau yr angen am cymorthydd harbwr.

Mewn ymateb, ac 'roedd y pwynt canlynol wedi ei godi ar sawl achlysur yn y gorffennol, y dylai'r Gwasanaeth Morwrol elwa o'r incwm a gasglir o'r ffioedd parcio ar y promenâd (yn enwedig o ystyried bod y promenâd yn disgyn dan gyfrifoldeb y Gwasanaeth Morwrol). Awgrymwyd yn gryf y dylid codi'r mater hwn unwaith eto gyda'r swyddogion perthnasol.

**Penderfynwyd:- (a) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a diolch i staff yr Harbwr am eu gwaith.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i:**

**(i) ymchwilio ymhellach i'r oblygiadau o uwchraddio cymhwyster Trwydded Cwch y Cyngor i Drwydded Meistr Cwch Lefel 2 yr MCA fel cymhwyster cydnabyddedig ar gyfer gweithredwyr ysgraff yn Harbwr Abermaw gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i gyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn ar 16 Mawrth 2010, er ystyriaeth pellach.**

**(i) Cysylltu â Mr Dafydd Williams, Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd, Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol, i gyfleu dymuniad y Pwyllgor Ymgynghorol i drafod y posibilrwydd o'r Uned Briffyrdd a Bwrdeistrefol drosglwyddo canran**

**o dderbyniadau'r parcio ar y promenad yn Abermaw i'r Gwasanaeth Morwrol o ystyried mai'r Gwasanaeth hwnnw sydd â chyfrifoldeb dros y promenad.**

6. **MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

(1) Gwella ardal y baddondy yn cynnwys cael gwared â thywod o'r promenad a'r ardal oddi amgylch

Esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y sefyllfa yn anodd a chydnabuwyd bod y tywod yn cael ei wthio dros y wal ar hyn o bryd gyda'r gobaith o'i glirio fel rhan o'r broses blynyddol o symud tywod yn ystod y Gwanwyn. 'Roedd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig o'r farn y byddai'r broblem yn lliniaru unwaith fyddai'r twyni tywod o flaen y morglawdd wedi datblygu.

'Roedd sawl aelod yn anghytuno gyda'r Swyddog Morwrol yn hyn o beth ac nad oedd y twyni tywod a'r gwair moresg yn naturiol. 'Roedd y broblem wedi cynnyddu dros flynyddoedd lawer gan ei wneud yn anodd i bobl fynd ar y traeth. Nododd y Cadeirydd bod Cyngor Tref Abermaw wedi trafod y mater pryd argymhellwyd iddynt wneud cais i Gyngor Gwynedd gael arweiniad arbenigwr ynglŷn â datblygiad pellach y twyni. Atgoffwyd bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a hefyd y Peiriannydd Grŵp wedi cyfarfod y Cyngor Tref ar y safle sawl blwyddyn yn ôl ble cytunwyd byddai yn dderbyniol caniatau i'r twyni tywod ddatblygu o flaen y morglawdd.

(2) Pontŵn. Rhoi ramp i lawr o ochr dde grisiau'r fferi gan redeg ar hyd wal y badau hwylio i bontŵn er mwyn gwella mynediad i gychod yn enwedig i'r anabl a'r henoed.

Adroddodd cynrychiolydd y Clwb Hwylio bod gan y Clwb gynlluniau i addasu mynediad wrth ymyl grisiau'r fferi.

Gofynnodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i aelodau'r Clwb Hwylio ymgynghori gyda'r Harbwr Feistr yn hyn o beth cyn gynted a phosibl gan ei fod yr Uned hefyd yn chwilio am brisiau pontwn.

(3) Glanhau ardal yr harbwr – colomennod o dan bont y trên yn dal i achosi problem go iawn gyda'u baw.

Awgrymodd y Cadeirydd i'r Swyddog Morwrol gysylltu â'r Uned Priffyrdd gyda chais iddynt ysgrifennu llythyr at Network Rail gyda chais iddynt osod rhwyd o dan y bont i atal y colomennod fynd yno ynghyd â gwneud trefniadau i lanhau'r palmant yn ardal yr harbwr.

(4) Diffyg mynediad i ochr y llithrfa gyferbyn â'r locer yn ystod mis Awst.

Addawodd y Swyddog Morwrol a Pharciau gwledig ymchwilio i hyn.

(5) Angori yn ystod y gaeaf ar y cei – mynegwyd bryder ynglŷn â iechyd a diogelwch y cyhoedd wrth gerdded ar y cei pan fydd perchnogion cychod yn trwsio gyda pheiriant llifanu, a.y.b. 'Roedd yn hanfodol i berchnogion cychod gael angori dros y gaeaf neu efallai y byddir yn

colli cwsmeriaid oni bai bod cyfleusterau o'r fath ar gael. Cynigiwyd sawl awgrym gan aelodau unigol i geisio lliniaru'r broblem:

- Symud y cychod i Aberamffra
- Neilltuo man penodol wrth ymyl y compownd neu ymhen draw y maes parcio sydd ddim yn cael defnydd parcio
- Gofyn i'r Harbwr Feistr ymchwilio a oedd llecyn posibl ar gael
- Clirio compownd y pysgotwyr

Gofyn i'r Harbwr Feistr ymchwilio i'r cynigion uchod ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

(6) Rheoli cŵn a chŵn yn baeddu ar y traeth a'r promenad

Bu i Gyngor Tref Abermaw dderbyn nifer o gwynion ynglŷn â'r uchod a gofynnwyd ynglyn â threfniadau.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig er bod arwyddion i fyny, 'roedd perchnogion cŵn yn tueddu i'w hanwybyddu. 'Roedd gan yr Harbwr Feistr ac amryw staff yr Uned Forwrol awdurdod i roi dirwyon a chadarnhawyd bod hyn yn digwydd.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag ateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i'r rhain.**

## 7. UNRHYW FATER ARALL

Codwyd ymwybyddiaeth aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams o gynllun peilot yn ardal Pwllheli sy'n ystyried rheoli peryglon llifogydd cymunedau mewn perygl llifogydd y mor / a neu llifogydd afonydd yng Ngwynedd. Mae'r cynllun yn deillio o "Ddulliau Newydd" Llywodraeth y Cynulliad o Reoli'r Arfordir a Pheryglon Llifogydd sy'n galw ar y Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd fel arweinydd cymunedol, ac i ddiogelu iechyd a lles trigion. Ym marn y ddau aelod 'roedd hyn yn hynod bwysig i holl ardaloedd yr arfordir gan bod effaith y tywydd a'r mor yn newid yn barhaus.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 16 Mawrth 2010.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod**

CADEIRYDD